

Tangwen Roberts



Digwyddiad
lansio Serena
Korda Black
Diamond

**CELF AC ADFYWIO
YN HWLFFORDD 2014-17**

**BLWYDDYN I CERDYN COFNOD ♦ CYMRAEG
I TACHWEDD 2014 – 31 HYDREF 2015**



c^onfluence



Gweithdy
Adeiladu
Freshwest o
raglen wythnos
lansio'r Lab

Mae Confluence yn gydweithrediad creadigol rhwng [PLANED](#), [spacetocreate](#), [iDeA Architects](#), [Cyngor Bwrdeistref Sir Benfro](#) a [Pontio Hwlfordd](#). Ei nod yw dyfeisio a phrofi dulliau newydd a dychmygus o weithio yn Hwlfordd fydd yn dod â'r gymuned at ei gilydd er mwyn ysbrydoli a llunio'r broses o gynllunio ac adfywio'r dref.

Mae Confluence yn un o saith prosiect ledled Cymru sy'n cael cefnogaeth drwy fenter strategol Cyngor Celfyddydau Cymru [Creu Cymunedau Cyfoes](#). Nod Confluence yw datblygu model ar gyfer celf a arweinir gan adfywio mewn trefi llai yng Nghymru.

Er mwyn dilyn y stori hyd yn hyn, edrychwch ar y prosiect [llinell amser](#), sy'n adrodd hanes y prosiect o'r cyhoeddiad Creu Cymunedau Cyfoes, i'r presennol.

Defnyddir pedwar maes perfformiad i fesur cynnydd:

- 1 Newid canfyddiadau pobl am Hwlfordd
- 2 Nifer y bobl sy'n ennyn diddordeb yn y rhaglen ac yn rhoi adborth cadarnhaol
- 3 Cynyddu dealltwriaeth pobl o'r hyn all celf ei gynnig
- 4 Cefnogaeth ac ymrwymiad y bobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ar ran y celfyddydau ac adfywio



Skeleton gan
Toby Downing
ar gyfer
Gorymdaith
lanternau Afon o.
Oleuadau 2015

Yn ystod y cyfnod peilot a thrwy gydol y flwyddyn gyntaf, gwahoddwyd pobl i fynegi eu barn er mwyn creu astudiaeth llinell sylfaen i fesur y newid dros amser.

Mae'r llinell sylfaen yn dangos, er bod llawer o bethau yr oedd pobl yn eu gwerthfawrogi am y dref, yn gyffredin â llawer o drefi ledled y DU, mae pobl wedi canfod bod Hwlfordd wedi dioddef o ddirywiad hirdymor:

- Newid mewn arferion siopa – pobl yn siopa ar-lein ac mewn archfarchnadoedd ar gyrion y dref
- Trethi busnes uchel yn arwain at orddibyniaeth ar siopau elusennol
- Diffyg buddsoddi, dealltwriaeth o'r celfyddydau a diddordeb ynddo
- Penderfyniadau cynllunio gwael a

diffyg gweledigaeth gydynol ar gyfer y dyfodol

- Diffyg cyfleoedd i ymgysylltu sy'n gwneud i bobl deimlo nad oes ganddynt rym
- Newidiadau yn yr economi wledig sy'n cael effaith negyddol ar y dref

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, cafwyd cydnabyddiaeth gadarn a rennir fod 'angen rhywbeth ar Hwlfordd' a 'bod gwaith i'w gyflawni yma'.

Un o flaenoriaethau cynnar y bartneriaeth oedd trawsnewid siop wag yng nghanol tref Hwlfordd yn sylfaen i raglen arbrofol o'r enw Y Lab sy'n cysylltu rhaglen o gweithiau comisiynau artistiaid, gyda'r nod o newid canfyddiadau pobl am y dref sirol.



Rhaglen
Gweithdy
Y Map Mawr

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, daeth rhagor na 1400 o bobl i dros dri deg o ddigwyddiadau a llwyddodd y prosiect i **ennyn diddordeb pobl yn y rhaglen**. Tyfodd rhestrau postio ac aelodaeth o grwpiau facebook yn raddol, ac erbyn diwedd y flwyddyn, roedd rhagor na 500 o bobl wedi llofnodi i fod yn rhan o'r rhwydwaith.

Rhoddodd y Map Mawr, cyfres o weithdai yn y gymuned sy'n mapio gweledigaeth newydd ar ddyfodol Hwlfordd, gyfle amserol i **ddylanwadu ar y bobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol**. Agorodd gofod agored i bobl broffesiynol a'r cyhoedd weithio ar y cyd. Defnyddiwyd y syniadau gwerthfawr a'r deunydd ymgynghori a gasglwyd i lywio uwch gynllun Hwlfordd, a grëwyd gan

ymgyngorwyr cynllunio Cyngor Sir Benfro, Nathaniel Lichfield Partnership. Fe'i cyhoeddwyd yn 2016.

Llwyddodd Black Diamond, comisiwn cyntaf pwysig, i roi Hwlfordd ar y map fel lleoliad ar gyfer gweithiau celf gyfoes. Maent yn llwyddo i ddenu cefnogaeth graidd yn y gymuned, wrth herio'r gymuned ehangach a'i **dealltwriaeth o'r hyn all celf ei gynnig**.

Roedd comisiynau eraill llai a digwyddiadau yn y gymuned fel Afon o Oleuadau yn fwy hygyrch. O ganlyniad fe wnaeth mwy o bobl gymryd rhan na'r cefnogwyr craidd yn unig. Llwyddwyd i wrthdroi teimladau y gall y celfyddydau fod yn elitaidd ac amherthnasol i fywydau y rhan fwyaf o bobl.